

## CYNGOR SIR CEREDIGION

<b><u>Adroddiad i'r:</u></b>	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu
<b><u>Dyddiad y cyfarfod:</u></b>	9 Mai 2024
<b><u>Teitl:</u></b>	Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (20.03.24)
<b><u>Pwrpas yr adroddiad:</u></b>	Cyflwyno cofnodion un o gyfarfodydd Cyngor Ieuenctid Ceredigion

**Y rheswm y mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:** Er gwybodaeth

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:** Y Cyngorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

### **Cefndir**

Un o'r dyletswyddau a roddwyd i Awdurdodau Lleol o fewn dogfen Llywodraeth Cymru *Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw Atodiad B - y Canllawiau Statudol ar Gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.*

Er mwyn cwrdd ag un o ofynion y ddeddfwriaeth, mae disgwyl i Awdurdodau Lleol weithio gyda phartneriaid perthnasol i:

- Gefnogi Fforwm / Cyngor Ieuenctid y Sir fel corff cynrychioliadol o bobl ifanc i weithredu fel sianel ar gyfer barn pobl ifanc ar draws eu hawdurdod lleol a chynrychioli'r safbwyntiau hynny i gyrrff gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol.
- Dylent anelu at fod mor gynhwysol â phosibl o ran lledaeniad daearyddol, oedran, rhyw ac i gynrychioli anghenion arbenigol a phobl ifanc mwy ymylol.
- Er mwyn i Fforymau / Cyngorau Ieuenctid y Sir weithredu'n effeithiol, bydd angen iddynt gael eu cefnogi'n ddigonol gan Awdurdodau Lleol a ddylai ystyried pa gymorth sydd ei angen i wneud hyn..
- Dylent gael eu hysbysu a'u cysylltu â'u strwythurau democrataidd lleol.
- Bydd angen iddynt hefyd gael eu cysylltu'n effeithiol â strwythurau cyfranogi cenedlaethol fel Young Wales, Comisiynydd Plant Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl ddynol i gael barn ac i'r safbwyntiau hyn fod o bwys. Mae'n dweud y dylid ystyried barn plant a phobl ifanc pan fydd pobl yn gwneud penderfyniadau am bethau sy'n eu cynnwys, ac ni ddylid eu diswyddo allan o law ar sail oedran. Mae hefyd yn dweud y dylid rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar blant a phobl ifanc i wneud penderfyniadau da. **Erthygl 12 (Parch at farn y plentyn - Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP))**

## **Y Sefyllfa Bresennol**

Gwasanaeth Gwaith Ieuentid ac Ymgysylltu Ceredigion sy'n gyfrifol am gydlynu a rheoli Cyngor Ieuentid Ceredigion ers iddo gael ei sefydlu gyntaf yn Hydref 2015. Maent yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn (unwaith bob tymor) ac mae'r Cyngor yn cynnal digwyddiad ar ddiwedd eu blwyddyn 'yn y rôl'. Mae cyfarfodydd y Cyngor Ieuentid yn cael eu cynnal yn y Siambr ym Mhenmorfa. Cyflwynir cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Ieuentid i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a'r Cabinet Llawn, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau pobl ifanc yn rhan o'r broses ddemocrataidd yng Ngheredigion.

### **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**

**A oes Aseiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, esboniwch pam.**

Ddim yn berthnasol

### **Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig:**

<b>Hirdymor:</b>	Ddim yn berthnasol
<b>Cydweithio:</b>	Ddim yn berthnasol
<b>Cynnwys:</b>	Ddim yn berthnasol
<b>Atal:</b>	Ddim yn berthnasol
<b>Integreiddio:</b>	Ddim yn berthnasol

### **Argymhelliad:**

Gofyn i Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu nodi cofnodion cyfarfod Cyngor Ieuentid Ceredigion a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2024, er gwybodaeth.

### **Rhesymau dros y penderfyniad:**

Bodloni gofynion y ddeddfwriaeth fel y nodir yn Atodiad B Llywodraeth Cymru - Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - yw Atodiad B - y Canllawiau Statudol ar Gyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

**Enw Cyswllt:** Lowri Evans

**Swydd:** Rheolwr Tîm, Gwasanaeth Gwaith Ieuentid ac Ymgysylltu

**Dyddiad yr adroddiad:** 11.04.2024

**Acronymau:** Ddim yn berthnasol